Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymunedol Cae'r Felin,

**Pencader,**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA39 9AA**

**Rhif yr Ysgol: 6692387**

**Rhif yr arolygiad: 1887**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2011**

**gan**

**Wil Williams**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Cae'r Felin wedi'i lleoli ym mhentref Pencader rhwng Llandysul a Chaerfyrddin. Agorwyd yr ysgol fel ysgol gymunedol ym Medi 2003 yn dilyn ail-drefnu addysg gynradd yn yr ardal. Mae'r ysgol yn gwasanaethu pentref Pencader a phentrefi cyfagos Alltwalis, Llanfihangel ar Arth a Gwyddgrug. Mae’r adeiladau'r ysgol yn cynnwys pedair ystafell ddosbarth, neuadd fwyta a neuadd amlbwrpas.

Mae 90 o ddisgyblion llawn-amser ar y gofrestr sydd yn cynnwys chwe phlentyn o oedran meithrin. Trefnir yr ysgol yn bedwar dosbarth cymysg oedran. Daw oddeutu 20 y cant y disgyblion o gartrefi Cymraeg eu hiaith.

Yn ôl yr ysgol, daw'r disgyblion o gefndir cymdeithasol nad yw'n llewyrchus nac ychwaith o dan anfantais economaidd. Mae gan oddeutu 13 y cant o'r disgyblion yr hawl i gael prydau bwyd ysgol am ddim sydd ychydig yn is na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Nid oes yr un disgybl y gofelir amdano gan yr awdurdod lleol (ALl) nac ychwaith yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae oddeutu chwarter y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) sydd ychydig yn uwch na'r canrannau sirol a chenedlaethol. Mae dau y cant ohonynt â datganiad statudol o ADY.

Yn 2010-2011, roedd y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymunedol Cae'r Felin yn £3298 sy’n cymharu ag uchafswm o £17415 ac isafswm o £3014 ar gyfer ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin. Gan yr ysgol mae'r 90$^{ain}$ gyllideb uchaf fesul disgybl o 114 o ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin.

Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd yn Ionawr 2011. Ni fu unrhyw newidiadau arwyddocaol yn natur yr ysgol ers yr arolygiad diwethaf yn Ebrill 2005.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyflawni safonau da;
- ansawdd addysgu'n dda gyda pheth addysgu rhagorol;
- y darperir ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog ar gyfer pob disgybl: a bod
- arweinyddiaeth fedrus y pennaeth a'r corff llywodraethol yn rhoi cyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod:

- y pennaeth wedi adnabod prif gryfderau ac anghenion datblygu'r ysgol ac wedi rhoi gwelliannau ar waith;
- trefniadau hunan-arfarnu trylwyr sy'n arwain at godi safonau;
- staff yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn fodlon rhoi cynnig ar fentrau newydd a dulliau gwahanol o weithio; a bod
- yr ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda nifer eang o bartneriaid i wella safonau a lles disgyblion.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i'r ysgol:

A1 wella medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2;

A2 cynyddu'r canrannau o ddisgyblion sy'n cyflawni Lefelau 3 a 5; a

A3 rhoi ffocws cliriach i godi safonau yn y Cynllun Gwella Ysgol.

***Beth sy'n digwydd nesaf?***

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae canlyniadau asesiadau sylfaen plant ar fynediad i'r ysgol, yn dangos eu bod yn cwmpasu ystod eang o allu yn y medrau allweddol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd arwyddocaol yn ystod eu blynyddoedd cynnar yn yr ysgol ac erbyn diwedd y Dosbarth Derbyn, yn cyflawni'r deilliannau a ddisgwylir am eu hoedran a'u gallu.

Mae'r rhan fwyaf o blant y Cyfnod Sylfaen a disgyblion Blwyddyn 2 (B2) yn gwneud cynnydd sylweddol yn eu medrau iaith a llythrennedd Cymraeg. Maent yn siarad yn rhugl ac yn defnyddio eu medrau darllen ac ysgrifennu gyda medrusrwydd cynyddol.

Yn CA2, mae llawer o'r disgyblion yn cyfathrebu'n hyderus ar lafar yn Gymraeg a Saesneg ar draws yr holl feysydd dysgu. Er bod llawer ohonynt yn darllen ac yn ysgrifennu'n rhwydd yn y ddwy iaith, mae diffygion ym medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg rhai o'r disgyblion.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob disgybl yn defnyddio eu medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus i nifer o bwrpasau megis casglu gwybodaeth a chyflwyno data. Mae gweithgareddau heriol ar lawr y dosbarth yn sicrhau bod llawer o'r disgyblion yn datblygu sgiliau datrys problemau da.

Mae disgyblion o bob oedran yn gwneud cynnydd da mewn dysgu. Mae bron pob un yn dwyn dysgu blaenorol i gof yn ddidrafferth ac yn caffael gwybodaeth a dealltwriaeth a medrau newydd yn hyderus.

Gan ystyried cefndir ieithyddol a chyd-destun yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn yr iaith Gymraeg.

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ynghyd â Saesneg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 (CA2), ar y cyfan wedi cymharu'n dda â'r perfformiad lleol a chenedlaethol. Mae'r gyfran sy'n cyrraedd dangosydd y pynciau craidd (DPC), sef y lefel a ddisgwylir mewn tri o'r pynciau craidd, hefyd wedi bod yn gymharus â'r ffigyrau lleol a chenedlaethol. Bu'r perfformiad ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn debyg i fwyafrif ysgolion sy'n wynebu'r un heriau.

Dros yr un cyfnod, bu'r ganran o ddisgyblion a gyrhaeddodd Lefel 3 ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 (CA1) a Lefel 5 ar ddiwedd CA2, yn is na'r canrannau lleol a chenedlaethol.

Roedd y ganran o ddisgyblion CA1 a gyrhaeddodd Lefel 2 neu uwch mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn 2010 yn uwch na'r canlyniadau lleol a chenedlaethol. Roeddynt hefyd yn well na'r rhan fwyaf o ysgolion sy'n wynebu'r un heriau. Fodd bynnag, roedd canlyniadau Cymraeg yn llawer is na'r meincnodau hyn.

Yn 2010, roedd perfformiad disgyblion CA2 mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn sylweddol is na'r meincnodau lleol a chenedlaethol a hefyd yn is na'r rhan fwyaf o ysgolion sy'n wynebu'r un heriau. Mae'r ysgol yn priodoli hyn i faint cymharol fychan y grŵp ac i'r ganran uchel o ddisgyblion ag ADY oedd ynddo.

Yn 2010, roedd y ganran o ddisgyblion CA1 a gyrhaeddodd Lefel 2 neu uwch yn y tri phwnc craidd ymhlith y 50 y cant uchaf o ysgolion sydd â chanran debyg o ddisgyblion gyda'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim. Roedd perfformiad disgyblion CA2 ymhlith y 25 y cant isaf o ysgolion tebyg.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol yn 2010 rhwng y gyfran o ferched a bechgyn a gyrhaeddodd y lefelau disgwyliedig yn y pynciau craidd.

Mae bron pob un disgybl gan gynnwys y rheini sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a’r rhai llai galluog neu sydd ag ADY, yn gwneud cynnydd da drwy’r Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol 1 a 2.

**Lles: Da**

Dywed disgyblion eu bod yn mwynhau dod i’r ysgol. Mae bron pob un yn teimlo’n ddiogel yn amgylchedd yr ysgol ac yn rhydd oddi wrth unrhyw gamdriniaeth gorfforol neu eiriol.

Mae gan ddisgyblion o bob oedran ddealltwriaeth gadarn o sut i ddod yn iach ac maent yn gwerthfawrogi bod bwydydd iach ac ymarfer corfforol rheolaidd yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a’u datblygiad.

Mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd disgyblion o safon uchel. Mae safonau ymddygiad ym mhob dosbarth yn glodwiw gyda disgyblion yn arddangos parch a gofal tuag at ei gilydd. Mae llawer ohonynt yn ddysgwyr hynod o weithgar a brwdfrydig sy’n cydweithio’n gytûn ac yn cadw’n ddiwyd ar dasg dros gyfnodau estynedig. O oedran cynnar, mae disgyblion yn hyderus iawn wrth wneud dewisiadau ynghylch eu dysgu ac maent yn mynd i'r afael â thasgau datrys problemau yn fedrus iawn. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i wella eu dysgu.

Mae gan ddisgyblion ymglymiad cryf i’r ysgol a’r staff ac wrth iddynt aeddfedu, maent yn fodlon ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol. Mae’r cyngor ysgol yn cyflawni ei waith yn gydwybodol ac effeithiol ac yn chwarae rhan flaenllaw ym mywyd a gwaith yr ysgol.

Dros y pedair blynedd diwethaf, bu cyfraddau presenoldeb yr ysgol unai yn debyg neu ychydig yn is na’r cyfraddau cenedlaethol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ystod gyfoethog o brofiadau dysgu a ddarperir yn bodloni anghenion yr ystod lawn o ddisgyblion, cyflogwyr a'r gymuned yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau dosbarth yn atgyfnerthu'r dysgu mewn nifer o gyd-destunau diddorol sy'n berthnasol i oedran a gallu'r disgyblion. Mae'r arfer o gynnwys rôl weithredol i'r disgyblion eu hunain yn y cynllunio yn gryfder amlwg yn yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth helaeth ar gyfer sicrhau bod disgyblion o bob oedran yn datblygu eu medrau meddwl ac yn caffael medrau cyfathrebu, rhifedd a TGCh, wedi ei hymgorffori'n gyson dda ar draws y cwricwlwm..

Mae gan y Cwricwlwm Cymreig le canolog yn rhaglen waith yr ysgol a gwneir defnydd dychmygus o'r ardal leol a'i phobl i ddarparu profiadau a gweithgareddau dysgu ysgogol. Mae'r cwricwlwm, ynghyd â'r amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol a ddarperir, yn helpu disgyblion i ddatblygu nifer o fedrau personol a chymdeithasol allweddol yn effeithiol iawn.

Mae darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer hybu dealltwriaeth a phrofiadau'r disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang. Mae parchu aml-ddiwylliannau, hybu agweddau gwrth hiliaeth a datblygu tegwch a chyfle cyfartal yn elfennau cryf o ddiwylliant yr ysgol. Mae strategaethau'r ysgol yn ogystal â rhaglen y Cyngor Eco, yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at godi ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd cynaladwyedd a gwarchod yr amgylchfyd.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda ac yn cynnwys rhai enghreifftiau o addysgu rhagorol ym mhen uchaf y Cyfnod Sylfaen a B2..

Mae athrawon ym mhob dosbarth yn defnyddio amrediad eang o strategaethau addysgu mewn ffordd gelfydd ac yn cyflwyno gwersi'n fywiog a llawn brwdfrydedd. Mae'r gweithgareddau a ddarperir yn heriol ac yn cynnig cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau ymchwiliol. Trwy ymyrraeth bwrpasol a holi medrus, llwydda'r athrawon a'r ymarferwyr i ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ac i ddatblygu eu medrau dysgu'n dda. Mae anogaeth gyson i ddisgyblion i werthuso'u dysgu, i fynegi barn a chynnig gwelliannau.

Mae'r modd y caiff disgyblion sydd ym mhen uchaf y Cyfnod Sylfaen a B2 eu hannog i fentro ac arbrofi â phrofiadau newydd, i wneud dewisiadau ac arwain eu dysgu, yn nodweddion rhagorol.

Mae trefniadau asesu'r ysgol yn drylwyr a chynhwysfawr ac mae'r systemau yn galluogi'r athrawon i fonitro a thracio cynnydd disgyblion yn rheolaidd. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda chlwstwr o ysgolion lleol i safoni a chymedroli asesiadau athrawon.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn gryfder amlwg ac wedi'u gwreiddio'n gadarn yn nulliau addysgu ac asesu'r ysgol. Mae athrawon yn annog disgyblion yn gyson i arfarnu gwaith eu hunain ynghyd â gwaith eu cyfoedion, ac i nodi'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Caiff gwybodaeth asesu ei ddefnyddio'n fynych ar gyfer llywio'r cynllunio ar gyfer y dyfodol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae polisïau a threfniadau gofal manwl ar gyfer sicrhau iechyd a lles emosiynol a chorfforol disgyblion yn ogystal ag annog eu hymglymiad yn eu hysgol a'r gymuned ehangach. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n arwyddocaol at ddatblygiad disgyblion ac yn cefnogi eu dysgu yn dda. Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol iawn. Mae cyfnodau cyd-addoli ynghyd â'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion, o safon uchel iawn.

Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer iechyd a lles disgyblion a'r gefnogaeth a'r gynhaliaeth a gynigir i bob unigolyn, yn gyson dda. Mae hyrwyddo arferion bwyta'n iach yn flaenoriaeth uchel ym mhob dosbarth ac mae'r rhaglen addysg gorfforol gynhwysfawr yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag ar gynyddu ffitrwydd disgyblion. Mae gan yr ysgol bolisïau priodol ac mae ganddi weithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn dda. Mae anghenion disgyblion yn cael eu hadnabod yn gynnar a thrwy asesiadau rheolaidd, cedwir golwg agos ar eu cynnydd gan bennu targedau addas a chyraeddadwy. Mae gan ddisgyblion a'r rhieni rôl weithredol yn yr holl brosesau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog yn gadarn ymhob dosbarth ac mae strategaethau cyfnewid ar gyfer llythrennedd Saesneg yn arwain at gynnydd da mewn dysgu a safonau.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chynhwysol, lle caiff disgyblion hawl gyfartal i'r holl ddarpariaeth addysgol a chymdeithasol. Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth a chreu ethos sy'n meithrin gofal a goddefgarwch. Mae cyflenwad helaeth o adnoddau perthnasol o ansawdd da sydd wedi'i weddu'n briodol ar gyfer yr holl ystod oedran a gallu. Mae'r adeilad o ansawdd da ac mae'r ysgol yn defnyddio pob gofod i bwrpas ac er lles disgyblion. Mae'r ardal allan ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Blwyddyn 2 yn adnodd gwerthfawr a diddorol sy'n cynnig profiadau amrywiol i'r plant.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth fedrus y pennaeth a'r corff llywodraethol yn cyfleu gweledigaeth glir ac yn rhoi cyfeiriad strategol i waith yr ysgol. Mewn cyfnod cymharol fyr, mae'r pennaeth wedi llwyddo i adnabod prif gryfderau ac anghenion datblygu'r ysgol ac wedi rhoi gwelliannau ar waith. Mae gan yr ysgol nodau ac amcanion strategol clir a

gaiff eu cyd-rannu gan staff, llywodraethwyr a rhieni. Mae'r staff addysgu a'r staff cymorth yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn fodlon rhoi cynnig ar fentrau newydd a dulliau gwahanol o weithio. Mae pob aelod staff yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n gydwybodol iawn. Trwy drefniadau rheoli perfformiad trylwyr, caiff anghenion hyfforddi a datblygu staff ynghyd ag anghenion yr ysgol, eu hadnabod a'u diwallu'n effeithiol.

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael a nifer o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgu. Mae darpariaeth y Cyfnod Sylfaen ynghyd â gweithrediad strategaethau asesu ar gyfer dysgu, yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd dysgu disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn ymgymryd â'i rolau mewn modd cyfrifol iawn. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r ffordd mae'r ysgol yn perfformio ac mae hyn wedi ei gryfhau trwy nifer o ymweliadau ac arsylwadau ar y cyd gyda staff. Maent yn herio'r ysgol fel ffrind beirniadol yn effeithiol. Mae'r corff llywodraethol yn mynd i'r afael yn ddiymdroi ag unrhyw bryderon a chwynion.

**Gwella ansawdd: Da**

Trwy weithredu trefniadau hunan arfarnu cynhwysfawr, mae gan arweinwyr ddarlun realistig o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Defnyddir ystod o strategaethau monitro gan gynnwys dadansoddi data ac arsylwi gwersi, i fesur cynnydd ac i nodi meysydd ar gyfer gwella. Trwy holiaduron a dulliau eraill anffurfiol, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd niferus i ddisgyblion a rhieni i fynegi eu safbwyntiau a chodi materion sydd o bwys iddynt hwy.

Mae'r CGY yn nodi blaenoriaethau ar gyfer gwelliant ond nid oes ffocws digon clir ar sut i godi safonau. Mae'r staff yn cwrdd yn rheolaidd ac yn cael mewnbwn i'r hyn sydd angen ei wneud.

Mae cymuned broffesiynol effeithiol yn bodoli o fewn yr ysgol sydd yn galluogi staff i rannu a datblygu eu gwybodaeth broffesiynol er lles y disgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ac yn rhannu arferion da, gyda nifer o ysgolion eraill o fewn yr ALl yn rheolaidd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio mewn modd effeithiol gyda nifer eang o bartneriaid i wella safonau a lles disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys y rhieni, ysgolion eraill lleol a'r gymuned. Mae cysylltiadau cryf gyda'r ALl a chaiff yr ysgol ei defnyddio'n aml fel enghraifft o arferion dysgu ac addysgu da. Mae staff yr ysgol yn cydweithio'n dda gyda staff ysgolion eraill yr ardal i ddarparu hyfforddiant mewn swydd ar y cyd. Mae'r ysgol wedi gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol i gyflwyno rhaglenni sydd yn cynorthwyo disgyblion a'u teuluoedd gyda sgiliau sylfaenol. Mae'r partneriaethau cynhyrchiol hyn yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at sicrhau ansawdd ar y cyd ac yn ehangu'r ystod o weithgareddau sydd ar gael i ddisgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff staffio ac adnoddau ariannol eu rheoli a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi a gwella dysgu. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion dysgu yn meddu ar lefelau da o wybodaeth ac arbenigeddau i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i'r amodau yn y cytundeb cenedlaethol ar 'Godi Safonau a Mynd i'r Afael â Llwyth Gwaith Athrawon'. Mae deilliannau'r ysgol yn dda gyda bron pob disgybl yn gweithio i'w lawn botensial. Mae hyn yn sicrhau gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Llenwodd oddeutu 20 y cant o'r rhieni'r holiadur gan fynegi barnau cadarnhaol am yr ysgol. Roedd pob un ohonynt yn fodlon gyda'r addysg yn gyffredinol ac yn dweud bod eu plant yn hapus yn yr ysgol, yn cael eu trin yn deg a'u parchu gan staff. Mae bron pob rhiant yn credu bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da ac yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf. Mae nifer fechan o rieni yn teimlo nad yw gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol. Dywed pob rhiant bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Llenwodd pob plentyn CA2 yr holiadur gan fynegi barnau arbennig o gadarnhaol am yr ysgol. Mae pob un yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn gwneud yn dda yn eu gwaith. Maent yn credu bod gwaith cartref yn helpu iddynt wella'u gwaith a bod digon o offer a chyfrifiaduron ar gael iddynt. Mae barn unfrydol bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach a bod llawer o gyfleoedd iddynt gael ymarfer corff yn rheolaidd. Yn ôl y mwyafrif o'r plant, mae plant eraill yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi ac amseroedd egwyl a chinio.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Deris Williams | Arolygydd Lleyg |
| Kevin Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Martin Griffiths | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

## Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |